

# Protocol Ymarfer Anghyfreithlon

## Mehefin 2022

<b>Statws y ddogfen</b>	Terfynol
<b>Dyddiad effeithiol</b>	29 Mehefin 2022
<b>Dyddiad wedi'i ddiweddarau</b>	Hydref 2023
<b>Perchennog</b>	Dionne Spence – Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddiol
<b>Awdur</b>	Claire Bond – Cyfreithiwr
<b>Adolygiad diwethaf</b>	Adolygwyd ar 2 Hydref 2023 (ychwanegwyd Paragraff 3.2)
<b>Dyddiad yr adolygiad nesaf</b>	Dim hwyrach na 31 Mawrth 2025

## Cynnwys

1. Amdanom ni .....	2
2. Pwrpas y ddogfen hon .....	2
3. Cam 1: asesiad .....	3
Meini prawf derbyn .....	3
Honiadau o dan Ran IV o'r Ddeddf .....	4
a. Cynnal prawf golwg pan nad yw'n optometrydd neu'n ymarferydd meddygol cofrestredig (adran 24) .....	5
b. Gosod lensys cyffwrdd pan nad ydynt yn optometrydd, optegydd cyflenwi neu ymarferydd meddygol cofrestredig (adran 25) .....	5
c. Gwerthiant sbectol yn anghyfreithlon (adran 27 o'r Ddeddf ac erthyglau 2 a 3 Gorchymyn Gwerthu Cyfarpar Optegol) .....	5
d. Gwerthiant lensys cyffwrdd presgripsiwn (adran 27) .....	6
e. Gwerthiant lensys cyffwrdd di-nerth (adran 27) .....	7
f. Camddefnyddio teitl gwarchoddedig / camliwio statws cofrestru (adran 28) .....	7
Penderfyniad asesu .....	7
4. Cam 2: ymchwiliad .....	8
5. Cam 3: penderfyniad ar erlyniad .....	9
Cofnodi'r penderfyniad ar erlyniad .....	11
Gweithredu yn dilyn y penderfyniad ar erlyniad .....	11
Dirprwyo ac ymgynghori .....	12

## 1. Amdanom ni

- 1.1 Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yw'r rheolydd ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd rydym yn cofrestru tua 30,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr optegol a busnesau optegol.
- 1.2 Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:
  - 1.2.1 gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad;
  - 1.2.2 cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
  - 1.2.3 cynnal cofrestr o unigolion sy'n gymwys ac yn addas i ymarfer, yn hyfforddi neu'n cynnal busnes fel optometryddion ac optegwyr cyflenwi; and
  - 1.2.4 ymchwilio a gweithredu lle amharwyd ar addasrwydd cofrestryddion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.
- 1.3 Ein hamcan trosfwaol yw amddiffyn y cyhoedd. Er nad yw'n ddyletswydd statudol benodol, efallai y byddwn yn gweithredu ar adroddiadau am arfer optegol anghyfreithlon honedig pan fo angen er mwyn diogelu'r cyhoedd.

## 2. Pwrpas y ddogfen hon

- 2.1 Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad ynghylch pryd y byddwn yn agor ymchwiliad i adroddiad am arfer optegol anghyfreithlon honedig a phryd y byddwn yn ystyried dwyn erlyniad.
- 2.2 Ni fyddwn ond yn ystyried cychwyn ymchwiliad os gall y gweithgaredd honedig fod yn drosedd o dan Ran IV o Ddeddf Optegwyr 1989 (y Ddeddf).
- 2.3 Mae ein protocol arfer anghyfreithlon yn nodi mesurau cymesur y gall y GOC eu cymryd, yn unol â'n hamcan trosfwaol ac egwyddorion rheoleiddio da, yn erbyn y troseddau a grëwyd gan y Ddeddf.
- 2.4 Bydd rhai adroddiadau a gawn yn cael eu trin yn well gan gyrff eraill, gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu (ASA), lle mae'r gŵyn yn ymwneud â hysbysebu. [Yr hyn yr ydym yn ei gwmpasu - ASA | CAP](#)
- 2.5 A bydd rhai adroddiadau yr ymdrinnir â hwy yn fwy priodol gan ein gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer (FtP): [Sut i godi pryder am optegydd | Cyngor Optegol Cyffredinol](#)

## 3. Cam 1: asesiad

### Meini prawf derbyn

- 3.1 Mae'r meini prawf derbyn canlynol yn offeryn rheoli achos a ddefnyddir gan y GOC i benderfynu a yw adroddiad am arfer anghyfreithlon honedig yn dod o fewn cwmpas y troseddau a grëwyd gan y Ddeddf, a pha gamau sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd.
- 3.2 Bydd pob adroddiad o arfer anghyfreithlon honedig yn cael ei ystyried fesul achos. Bwriedir i'r meini prawf derbyn fod yn ganllaw i sicrhau bod y GOC yn gymesur, wedi'i dargedu ac yn gyson yn ei ymagwedd at arfer anghyfreithlon.
- 3.3 Mae nifer o wahanol gamau y gall y GOC eu cymryd wrth ystyried adroddiad newydd:
  - 3.3.1 cau heb unrhyw gamau pellach;
  - 3.3.2 cau a chyfeirio at gorff arall; neu
  - 3.3.3 agor ymchwiliad.
- 3.4 Os na allwn wneud asesiad ynghylch a ddylid agor achos ar ôl derbyn y wybodaeth gychwynnol, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth i gynorthwyo gyda'r asesiad. Gall cwyn gael ei chau os na allwn gael gwybodaeth i gadarnhau ymchwiliad i drosedd honedig.
- 3.5 Ar ôl derbyn adroddiad am arfer anghyfreithlon honedig, byddwn yn ystyried yn gyntaf a yw'r ymddygiad honedig yn gyfystyr â throedd o dan Ran IV o'r Ddeddf.
- 3.6 Mae'r Ddeddf yn creu troseddau mewn perthynas â:
  - 3.6.1 gweithgareddau sydd wedi'u cyfyngu i bobl sydd wedi'u cofrestru gyda'r GOC neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol; a
  - 3.6.2 teitlau sydd wedi'u cyfyngu i bersonau sydd wedi'u cofrestru gyda'r GOC.
- 3.7 Mae'r Ddeddf yn creu'r troseddau canlynol:
  - 3.7.1 cynnal profion golwg yn anghyfreithlon (adran 24);
  - 3.7.2 gosod lensys cyffwrdd yn anghyfreithlon (adran 25);
  - 3.7.3 cyflenwi sbectol yn anghyfreithlon (adran 27);
  - 3.7.4 cyflenwi lensys cyffwrdd presgripsiwn yn anghyfreithlon (adran 27);

- 3.7.5 cyflenwi lensys cyffwrdd cosmetig (di-nerth) yn anghyfreithlon (adran 27); a
  - 3.7.6 camddefnyddio teitl gwarchodedig neu gamliwio statws cofrestru gyda'r GOC (adran 28).
- 3.8 Os bydd asesiad o'r adroddiad yn ein harwain i amau trosedd o dan y Ddeddf, byddwn yn cwblhau asesiad risg i benderfynu a oes risgiau i'r cyhoedd a/neu risgiau i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.
- 3.9 Dyma'r ffactorau a fydd yn dynodi risg uwch:
- 3.9.1 bwriad i gamddefnyddio teitl gwarchodedig;
  - 3.9.2 troseddau sy'n ymwneud â chleifion agored i niwed / categorïau cyfyngedig e.e., dan 16, yr henoed a chleifion â nam ar eu golwg; a
  - 3.9.3 potensial ar gyfer niwed difrifol / niwed gwirioneddol a achosir oherwydd arfer anghyfreithlon.
- 3.10 Bydd cynllun achos yn cael ei gwblhau gan yr aseswr, a fydd yn cynnwys penderfyniad yr asesiad, yn nodi'r mater(ion), trosedd(au) honedig, asesiad risg a chamau gweithredu a argymhellir. Unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau, bydd y cynllun achos yn cael ei gyfeirio at gyfreithiwr i'w adolygu er mwyn ystyried y camau a argymhellir a gosod cyfeiriad ar gyfer ymchwiliad fel y bo'n briodol.
- 3.11 Bydd yr aseswr a/neu gyfreithiwr adolygu yn ceisio cyngor gan gynghorwyr clinigol y GOC ar risg glinigol pan fo angen.

#### Honiadau o dan Ran IV o'r Ddeddf

- 3.12 Mae pob trosedd o dan y Ddeddf yn drosedd ddiannod yn unig, sy'n golygu mai dim ond mewn Llys Ynadon y gellir eu rhoi ar brawf. Mae ganddynt gosb o ddirwy anghyfyngedig ar euogfarn.
- 3.13 Mae pob categori o drosedd wedi'i grynhai isod er mwyn helpu i asesu a yw trosedd o dan y Ddeddf wedi'i sefydlu. Ni fwriedir iddo fod yn grynodeb cynhwysfawr o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.
- 3.14 Bydd cyfreithiwr yn adolygu pob cam o'r broses i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n gywir.

a. Cynnal prawf golwg pan nad yw'n optometrydd neu'n ymarferydd meddygol cofrestredig (adran 24)

- 3.15 Dim ond optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig a all gynnal profion golwg, gyda darpariaeth arbennig ar gyfer myfyrwyr.<sup>1</sup>
- 3.16 Diffinnir profion golwg yn adran 36(2) o'r Ddeddf fel "*profi golwg gyda'r nod o benderfynu a oes unrhyw ddiffyg ar y golwg ac, os felly, pa ddiffyg ar y golwg a chywiro neu leddfu unrhyw ddiffyg o'r fath o natur anatomegol neu ffisiolegol trwy gyfrwng teclyn optegol a ragnodwyd ar sail y penderfyniad*". Mae Rheoliadau Profi Golwg 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i'r prawf golwg gynnwys (ymhlith materion eraill) "*archwiliad o arwyneb allanol y llygad a'i gyffiniau agos*" ac mae adran 26(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i roi presgripsiwn os yw'n briodol.

b. Gosod lensys cyffwrdd pan nad ydynt yn optometrydd, optegydd cyflenwi neu ymarferydd meddygol cofrestredig (adran 25)

- 3.17 Dim ond optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig (adran 25(1)) a all osod lensys cyffwrdd, gyda darpariaeth arbennig ar gyfer myfyrwyr.
- 3.18 Rhaid i'r ffitiadau ddechrau cyn y dyddiad ailrholi a nodir mewn presgripsiwn sbectol dilys (dyddiedig lai na dwy flynedd yn ôl) (adran 25(1A)(b)).

c. Gwerthiant sbectol yn anghyfreithlon (adran 27 o'r Ddeddf ac erthyglau 2 a 3 Gorchymyn Gwerthu Cyfarpar Optegol)

- 3.19 Rhennir gwerthiannau sbectol anghyfreithlon yn bedwar categori.

*i. Categoriâu cyfyngedig*

- 3.20 Os yw'r defnyddiwr:

3.20.1 dan 16 oed; or

3.20.2 a chanddo/i nam golwg cofrestredig / nam difrifol ar y golwg

dim ond gan neu dan oruchwyliaeth optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig y gellir gwerthu sbectol.

- 3.21 Mae cyfraith achosion yn ei gwneud yn ofynnol i'r goruchwyliwr fod yn y safle ar adeg gwerthu ac mewn sefyllfa i ymyrryd a defnyddio ei farn broffesiynol fel clinigwr er budd y claf.

---

<sup>1</sup> Gweler rheol 3 o Reolau Profi Golwg gan Bersonau sydd wedi'u Hyfforddi fel Optometryddion 1993 sy'n caniatáu i fyfyrwyr optometryddion profi golwg dan oruchwyliaeth.

ii. Sbectolau "Parod i Ddarllen"

- 3.22 Diffinnir sbectolau parod i ddarllen gan adran 27(2)(a) o'r Ddeddf fel sbectolau i gywiro namau ar y golwg agos â lensys golwg sengl o bŵer sfferig cyfartal rhwng 0 a +4 dioptr.

Gall sbectolau parod i ddarllen gael eu gwerthu gan berson nad yw wedi cofrestru heb oruchwyliaeth glinigol ar gyfer lleddfu presbyopia (golwg hir sy'n gysylltiedig ag oedran), cyn belled nad yw'r defnyddiwr arfaethedig o dan 16 oed neu â nam ar y golwg neu nam difrifol ar y golwg.

iii. Sbectolau darllen eraill

- 3.23 Diffinnir sbectolau darllen eraill gan erthygl 3(1)(d) o'r Gorchymyn fel sbectolau i gywiro diffygion golwg agos â lensys golwg sengl sydd â phwerau sfferig cyfartal neu anghyfartal rhwng 0 a +5 dioptr.

Gall person anghofrestredig werthu sbectolau darllen eraill ar yr amod nad yw'r defnyddiwr arfaethedig o dan 16 oed neu'n gofrestedig â nam ar ei olwg neu â nam difrifol ar ei olwg, a bod y cyflenwad yn unol â phresgripsiwn ysgrifenedig a roddwyd o fewn y ddwy flynedd flaenorol.

iv. Sbectolau presgripsiwn y tu allan i'r categorïau uchod

- 3.24 Fel arall, gall unrhyw un werthu sbectol yn unol â phresgripsiwn a roddwyd o fewn dwy flynedd ar yr amod nad yw'r defnyddiwr o dan 16 oed neu wedi'i gofrestru â nam ar ei olwg neu â nam difrifol ar ei olwg, yn amodol ar y gofynion ychwanegol a nodir yn erthygl 3(3) o'r Gorchymyn.

**d. Gwerthiant lensys cyffwrdd presgripsiwn (adran 27)**

- 3.25 Dim ond i rywun sydd â manyleb lensys cyffwrdd ddilys gyfredol y gellir gwerthu lensys cyffwrdd presgripsiwn.
- 3.26 Gellir eu gwerthu gan neu o dan **oruchwyliaeth** optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig. Neu gellir eu gwerthu o dan **gyfarwyddyd cyffredinol** optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig, os yw'r cyflenwr yn derbyn y fanyleb wreiddiol neu'n dilysu'r fanyleb gyda'r rhagnodwr.
- 3.27 Os yw'r defnyddiwr o dan 16 oed neu wedi'i gofrestru â nam ar ei olwg / â nam difrifol ar ei olwg, dim ond gan, neu o dan oruchwyliaeth optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig, y gellir gwerthu lensys presgripsiwn i rywun sydd â manyleb ddilys gyfredol.

e. Gwerthiant lensys cyffwrdd di-nerth (adran 27)

- 3.28 Dim ond gan, neu o dan **oruchwyliaeth**, optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig y gellir gwerthu lensys cyffwrdd di-nerth (adran 27(1)(b)).
- 3.29 Mae cyfraith achosion yn ei gwneud yn ofynnol i'r goruchwylwr fod yn y safle ar adeg gwerthu ac mewn sefyllfa i ymyrryd a defnyddio ei farn broffesiynol fel clinigwr er budd y claf.

f. Camddefnyddio teitl gwarchodedig / camliwio statws cofrestru (adran 28)

- 3.30 Ni all busnes neu unigolyn nad yw wedi'i gofrestru gyda'r GOC hawlio nac awgrymu ei fod wedi'i gofrestru gyda'r GOC.
- 3.31 Ni all unigolyn anghofrestredig ddefnyddio'r teitlau: "optometrydd", "optegydd cyflenwi" neu "optometrydd cofrestredig".
- 3.32 Ni all unigolyn gymryd arno ei fod yn fyfyrwr cofrestredig pan nad yw wedi'i gofrestru â'r GOC fel myfyriwr.
- 3.33 Ni all unigolyn gymryd arno fod ganddo arbenigedd neu hyfedredd sy'n gymwys i'w gofnodi yn y gofrestr briodol pan nad oes ganddo gofrestrriad o'r fath.
- 3.34 Ni all busnes heb ei gofrestru ddefnyddio'r teitlau: "optegydd offthalmig", "optometrydd", "optegydd cyflenwi", neu "optegydd cofrestredig".
- 3.35 Ni all busnesau ac unigolion anghofrestredig ddefnyddio'r teitl "optegydd" oni bai na allai neb feddwl yn rhesymol eu bod wedi cofrestru gyda'r GOC.

Penderfyniad asesu

- 3.36 Os amheuir trosedd:
- 3.36.1 Cwblhewch gynllun achos cam 1 gan gynnwys asesiad risg.
- 3.36.2 Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol ystyried cau achos yng nghanam 1, er enghraifft, camddefnydd anfwriadol o deitl oherwydd anghofio cadw cofrestrriad ar ddiwedd y cyfnod cadw, neu, gwerthiannau anghyfreithlon ar Amazon, Facebook, Instagram, Google, TikTok - adroddwch i'r pwynt cyswllt i'w ddileu.
- 3.36.3 Gall Safonau Masnach ymdrin yn fwyaf effeithiol ag achosion sy'n ymwneud â gwerthu lensys cyffwrdd a sbectol yn anghyfreithlon (gwerthiannau ar-lein a/neu ffisegol) o ystyried eu hystod o bwerau statudol. Byddwn yn cau ein hachos unwaith y bydd atgyfeiriad i Safonau Masnach wedi'i wneud ac yn gofyn am gael gwybod y canlyniad.



- 3.36.4 Gellir ail-agor unrhyw achos a gyfeirir at drydydd parti os na fydd y trydydd parti yn gweithredu ac nad yw'r terfyn amser statudol ar gyfer dwyn erlyniad am drosedd ddiannod yn unig wedi dod i ben.<sup>2</sup>
  - 3.36.5 Os oes pryder yn erbyn busnes neu unigolyn nad yw'n perthyn i'r DU ac na ellir ei atgyfeirio i rywle arall, caewch oherwydd ei fod y tu allan i awdurdodaeth llysoedd y DU.
  - 3.36.6 Os yw'r risg yn gwarantu ymchwiliad pellach, cwblhewch gynllun achos a'i gyfeirio at gyfreithiwr i'w adolygu.
- 3.37 Os nad oes trosedd, ystyriwch a ellir cyfeirio'r mater yn fewnol / allanol:
- 3.37.1 Pryderon o ran enw da ar gyfer GOC/sector optegol a risg canlyniadol i ddiogelwch y cyhoedd e.e. erthygl anghywir yn y wasg. Caewch a chyfeirio at y tîm Cyfathrebu.
  - 3.37.2 Pryder am hysbysebu. Caewch a chyfeirio at yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu.
  - 3.37.3 Pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer. Caewch a chyfeirio at y tîm Addasrwydd i Ymarfer.

## 4. Cam 2: ymchwiliad

- 4.1 Byddwn yn ymchwilio i honiadau drwy gasglu tystiolaeth gan ddilyn y camau isod:
  - 4.1.1 cyswllt cychwynnol i gasglu tystiolaeth o drosedd honedig (gellir ein bodloni gyda'r adroddiad cychwynnol / gall fod yn briodol i symud ymlaen yn syth i ymchwiliad mewn achosion risg uchel clir);
  - 4.1.2 ymchwil / ymholiadau achos-benodol yn ôl yr angen;
  - 4.1.3 llythyr terfynu ac ymatal os bydd y drosedd honedig yn parhau a'i hategu gan dystiolaeth
  - 4.1.4 pryniantprawf yn dilyn llythyr terfynu ac ymatal mewn achosion sy'n ymwneud â chyflenwi sbectol a/neu lensys cyffwrdd yn anghyfreithlon lle bodlonir y profion tystiolaethol a budd y cyhoedd (gweler cam 3).
- 4.2 Dylai'r rhesymau dros gynnal pryniant prawf gael eu nodi ar y cynllun achos a'u cymeradwyo gan gyfreithiwr.
- 4.3 Rhaid i'r pryniant prawf gael ei ddogfennu mewn datganiad tyst a rhaid i'r prynwr prawf fod yn fodlon rhoi tystiolaeth yn y Llys Ynadon os oes angen.

---

<sup>2</sup> Gweler adran 127 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980

- 4.4 Yn dilyn yr ymchwiliad, bydd y swyddog ymchwilio yn diweddarau'r cynllun achos i gynnwys canfyddiadau ac argymhelliad ar y camau nesaf i'w hadolygu gan gyfreithiwr.

## 5. Cam 3: penderfyniad ar erlyniad

- 5.1 Ar ôl ystyried y dystiolaeth a'n hamcan pennaf, byddwn yn penderfynu a ddylid:
- 5.1.1 peidio â chymryd unrhyw gamau (er enghraifft, os nad oes digon o dystiolaeth i sefydlu trosedd o dan Ran IV o'r Ddeddf);
  - 5.1.2 cael ymrwymiad neu gymryd camau anffurfiol eraill;
  - 5.1.3 cyfeirio'r mater at ein tîm Addasrwydd i Ymarfer, rheolydd arall, Safonau Masnach, tîm tynnu platfformau ar-lein neu'r heddlu; neu
  - 5.1.4 cychwyn erlyniad preifat (yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon) neu gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth Procuradur Ffisgal (yn yr Alban)
- 5.2 Yn gyffredinol ni fyddwn ond yn ystyried dwyn erlyniad mewn achosion lle mae un neu fwy o'r ffactorau canlynol yn bresennol:
- 5.2.1 bwriad;
  - 5.2.2 troseddau sy'n ymwneud â chleifion agored i niwed / categorïau cyfyngedig o dan y Ddeddf;
  - 5.2.3 niwed gwirioneddol neu risg o niwed difrifol;
  - 5.2.4 niwed sylweddol i enw da'r proffesiwn; neu
  - 5.2.5 aildroseddu.
- 5.3 Bydd y Cofrestrydd yn penderfynu a ddylid dwyn erlyniad preifat yn dilyn argymhelliad gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddiol. Gall y penderfyniad ar erlyniad gael ei gadw i'r Cyngor yn ôl disgrisiwn y Cofrestrydd.
- 5.4 Rhaid i'r Cofrestrydd roi sylw i brif amcan y GOC o ddiogelu, hybu a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd. Gallai hyn arwain at y Cofrestrydd yn penderfynu na ddylai'r GOC gychwyn achos hyd yn oed pan fo'r honiadau'n ddifrifol neu'n sensitif.
- 5.5 Rhaid cymhwyso dau brawf wrth benderfynu a ddylid dwyn erlyniad: y prawf tystiolaethol a phrawf lles y cyhoedd.

### *Y prawf tystiolaethol*

- 5.6 Dim ond pan fydd digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o euogfarn yn erbyn o leiaf un diffynnydd ar un cyhuddiad y gall y Cofrestrydd benderfynu cychwyn achos troseddol.
- 5.7 Wrth asesu'r dystiolaeth, rhaid i'r Cofrestrydd ystyried y ffactorau canlynol:
- 5.7.1 a yw'n fwy tebygol na pheidio y bydd tribiwnlys a gyfeiriwyd yn briodol yn fodlon â'r safon prawf troseddol (yn fodlon nes eu bod yn siŵr) bod y diffynnydd wedi cyflawni'r drosedd honedig;
  - 5.7.2 beth allai amddiffyniadau posibl y diffynnydd fod, boed yn gyffredinol neu'n benodol, a sut y gallai'r amddiffyniadau hyn effeithio ar y posibilrwydd o euogfarn;
  - 5.7.3 unrhyw botensial i unrhyw ran o'r dystiolaeth gael ei heithrio gan y llys, boed hynny ar sail annerbynioldeb technegol neu ar seiliau cyfreithiol, gan gynnwys camddefnydd o'r broses neu dorri Deddf Hawliau Dynol 1998;
  - 5.7.4 dibynadwyedd y dystiolaeth, gan gynnwys hygrededd y tystion ac unrhyw wrthdaro yn y dystiolaeth; a
  - 5.7.5 y posibilrwydd y daw unrhyw dystiolaeth bellach ar gael.

### *Prawf lles y cyhoedd*

- 5.8 Hyd yn oed pan fo tystiolaeth ddigonol ar gyfer gobaith realistig o euogfarn, ni chaiff y Cofrestrydd ddwyn achos oni bai bod angen erlyniad er budd y cyhoedd.
- 5.9 Y cwestiwn i'r Cofrestrydd yw a oes angen erlyniad i wasanaethu buddiannau'r cyhoedd, nid a fyddai erlyniad yn gwasanaethu buddiannau'r sector optegol neu broffesiynau eraill. Wrth ystyried y mater hwn, rhaid i'r Cofrestrydd ystyried holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys manylion y drosedd honedig, amgylchiadau'r diffynnydd ac effaith yr ymddygiad troseddol ar iechyd a diogelwch y cyhoedd a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.
- 5.10 Mae'r canlynol yn rhestr anghyflawn o ffactorau a allai fod yn berthnasol i fudd y cyhoedd:
- 5.10.1 a yw'r troseddu honedig yn parhau neu wedi dod i ben;
  - 5.10.2 hyd y cyfnod y parhaodd y troseddu honedig;
  - 5.10.3 a gyflawnwyd y drosedd honedig yn fwriadol neu o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth;
  - 5.10.4 a yw'r troseddu honedig yn debygol o gael ei barhau neu ei ailadrodd;
  - 5.10.5 a gafodd aelod o'r cyhoedd ei niweidio neu ei roi mewn perygl o niwed oherwydd y drosedd honedig;
  - 5.10.6 a oedd y person wedi ei niweidio, neu mewn perygl o niwed, yn agored i niwed e.e. oherwydd oedran neu wendid;

- 5.10.7 a yw erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr;
  - 5.10.8 a yw'r erlyniad yn debygol o gael effaith sylweddol ar gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn neu atal eraill rhag cyflawni trosedd;
  - 5.10.9 a oedd y drosedd honedig yn ymwneud â thorri ymddiriedaeth neu gamddefnyddio swydd;
  - 5.10.10 a oedd y drosedd honedig yn ymwneud â nodwedd warchoddedig;
  - 5.10.11 a oes gan y diffynnydd euogfarn flaenorol neu ganfyddiad anffafriol arall, gan gynnwys canfyddiad gan reoleiddiwr;
  - 5.10.12 a yw'r diffynnydd wedi torri ymrwymiad i'r GOC neu gorff arall, neu wedi gwrthod cyfle i ddarparu ymrwymiad;
  - 5.10.13 a gafodd y diffynnydd rybudd cyn cyflawni'r drosedd;
  - 5.10.14 a yw'r diffynnydd yn debygol o fod yn destun ymchwiliad rheoleiddiol, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau tebyg neu gysylltiedig, boed gan y GOC neu reoleiddiwr arall;
  - 5.10.15 a yw'r diffynnydd yn debygol o fod yn destun ymchwiliad troseddol ar wahân, boed gan yr heddlu neu asiantaeth erlyn arall; a
  - 5.10.16 y sancsiwn tebygol a osodir gan y llys ar euogfarn.
- 5.11 Nid yw'r ffactorau uchod yr un mor bwysig, a bydd pwysigrwydd cymharol ffactor yn cael ei bennu gan amgylchiadau unigol pob achos.
- 5.12 Wrth benderfynu a yw prawf budd y cyhoedd wedi'i fodloni, rhaid i'r Cofrestrydd wneud asesiad cyffredinol yng ngoleuni'r holl amgylchiadau. Gallai erlyniad fod er budd y cyhoedd hyd yn oed pan fo sawl ffactor yn pwyntio yn erbyn erlyniad; yn yr un modd, efallai na fydd angen erlyniad er budd y cyhoedd hyd yn oed pan fo sawl ffactor yn cyfeirio at erlyniad.

### Cofnodi'r penderfyniad ar erlyniad

- 5.13 Rhaid i benderfyniad y Cofrestrydd i erlyn gael ei gofnodi'n ysgrifenedig cyn gynted â phosibl a rhaid ei adrodd i Gyngor y GOC yng nghyfarfod dilynol y Cyngor.
- 5.14 Rhaid i'r Cofrestrydd gadw rhestr o'r holl benderfyniadau a darparu copïau o'r rhestr i Gadeirydd y Cyngor, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddiol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar gais.

### Gweithredu yn dilyn y penderfyniad ar erlyniad

- 5.15 Yn dilyn y penderfyniad, gall y Cofrestrydd:
  - 5.15.1 ysgrifennu at y diffynnydd, gan gynnwys gofyn i'r diffynnydd roi'r gorau i'r gweithgaredd honedig ac ymatal rhag parhau neu ailadrodd gweithgaredd o'r fath;

- 5.15.2 cymryd camau anffurfiol eraill, gan gynnwys gofyn i'r diffynnydd am ymgymeriad;
- 5.15.3 hysbysu'r hysbysydd (os yw'n hysbys) ac unrhyw bartïon eraill o'r penderfyniad;
- 5.15.4 adrodd y mater i asiantaeth arall;
- 5.15.5 cynnal unrhyw ymchwiliad pellach a allai fod yn briodol; a
- 5.15.6 cychwyn erlyniad drwy osod gwybodaeth yn y Llys Ynadon.

### Dirprwyo ac ymgynghori

- 5.16 Gall y Cofrestrydd ddirprwyo unrhyw un neu bob un o'r swyddogaethau uchod i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddiol, y Pennaeth Cyfreithiol a/neu unrhyw berson arall y mae'r Cofrestrydd yn ei ystyried yn briodol.
- 5.17 Rhaid i'r Cofrestrydd neu ddirprwy, os nad yw'n gymwys yn y gyfraith, gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr mewnol neu allanol cyn penderfynu a ddylid cychwyn achos.
- 5.18 Gall y Cofrestrydd neu ddirprwy, boed yn gymwys yn y gyfraith ai peidio, ymgynghori ag unrhyw ffynonellau ychwanegol ar unrhyw adeg, gan gynnwys cael cyngor cyfreithiol a/neu glinigol arbenigol.
- 5.19 Rhaid i benderfyniad a allai (ym marn y penderfynwr) fod â goblygiadau sylweddol i'r GOC, gael ei wneud neu ei gymeradwyo gan y Cofrestrydd a rhaid ei hysbysu i Gadeirydd y Cyngor cyn gynted â phosibl.